WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y Dyfodol? – **Cyngor Caerdydd**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 601A2018-19

Mae’r ddogfen hon wedi’i pharatoi fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall yn eu swyddi unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os daw cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae’r Cod ar gyfer adran 45 yn nodi’r arferion a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ddelio â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau am ddatgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in Welsh.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Phillips a Sara-Jane Byrne o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r trefniadau archwilio wedi datblygu'n dda ac wedi'u hategu gan ddiwylliant sy'n eu rhoi mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau nawr ac yn y dyfodol.  Ond, gallai'r Cyngor fod yn fwy arloesol o ran sut mae'n cynnal gweithgareddau archwilio.


Adroddiad cryno

Cynigion ar gyfer Gwella 5

Mae'r Cyngor yn sylweddoli bod ei swyddogaeth graffu yn bwysig ac mae'n ei gwerthfawrogi 6

Mae cyfarfodydd y pwyllgor craffu yn cael eu cynnal yn dda ac mae'r Cyngor yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn modd rhagweithiol yng ngwaith y grwpiau gorchwyl a gorffen. Ond mae'n cydnabod y gallai wella ar ymwneud y cyhoedd yn ei weithgareddau craffu 7

Gallai'r Cyngor edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio er mwyn gwella effaith gweithgareddau craffu a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r eithaf 9

Atodiadau

Atodiad 1 – Canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu effeithiol ar ran llywodraeth leol 11

Atodiad 2 – Argymhellion o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ei astudiaeth wella genedlaethol, sef 'Craffu Da? Cwestiwn Da!' (Mai 2014) 13

# Adroddiad manwl

## Crynodeb

1 Gyda'r 22 cyngor sydd yng Nghymru, buom yn archwilio pa mor 'addas ar gyfer y dyfodol' yw eu swyddogaethau craffu. Buom yn ystyried sut mae cynghorau'n ymateb i heriau cyfredol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yng nghyswllt eu gweithgareddau craffu, yn ogystal â sut mae cynghorau yn dechrau ar y gwaith o graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Buom hefyd yn archwilio pa mor dda yw sefyllfa'r cynghorau o ran eu gallu i ymateb i heriau yn y dyfodol, megis y pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus a'r posibilrwydd o symud tuag at fwy o gydweithio ar lefel ranbarthol rhwng awdurdodau lleol.

2 Fel rhan o'r adolygiad hwn buom hefyd yn adolygu cynnydd cynghorau o ran rhoi sylw i'r argymhellion yn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol, sef **Craffu Da? Cwestiwn Da!** (Mai 2014) (gweler Atodiad 2). Aethom hefyd ar drywydd cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i graffu a gyhoeddwyd gennym mewn adroddiadau lleol, gan gynnwys y rheini a ddosbarthwyd i gynghorau fel rhan o'n hadolygiadau thematig o Gynllunio Arbedion a Threfniadau Llywodraethu ar gyfer Pennu Newidiadau Arwyddocaol i Wasanaethau yn 2016-17.

3 Nod ein hadolygiad oedd:

- canfod dulliau o wreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn prosesau ac arferion craffu fel sail ar gyfer rhannu arferion a llywio gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol yng nghyswllt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- rhoi sicrwydd bod swyddogaethau craffu mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau a disgwyliadau nawr ac yn y dyfodol;
- helpu i wreiddio craffu effeithiol ar ran aelodau etholedig o ddechrau'r cylch etholiadol newydd ymlaen; a
- gweld pa mor dda y mae cynghorau wedi ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth Gwella Craffu flaenorol.

4 Fel sylfaen i'n canfyddiadau, fe wnaethon ni seilio ein dull adolygu ar y Canlyniadau a'r Nodweddion ar gyfer Trosolwg a Chraffu Effeithiol ar ran Llywodraeth Leol yr oedd rhanddeiliaid craffu yng Nghymru wedi eu llunio ac wedi cytuno arnynt yn sgil ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol, sef **Craffu Da? Cwestiwn Da!** **(gweler Troednodyn 1)**

5 Fe wnaethon ni gynnal ein gwaith maes rhwng mis Hydref 2017 a mis Ionawr 2018. Fe wnaethon ni gynnal adolygiadau o ddogfennau a chyfweld nifer o swyddogion allweddol, ynghyd â chynnal grwpiau ffocws gyda chynghorwyr allweddol er mwyn deall eu barn am drefniadau craffu presennol Cyngor Caerdydd (y Cyngor) ac, yn arbennig, sut mae'r Cyngor yn ymdrin â'r heriau a nodwyd uchod a sut mae'n bwriadu ymateb iddynt.

6 Buom yn gwylio sampl o gyfarfodydd pwyllgor craffu'r Cyngor ac adolygu dogfennau cyfarfodydd perthnasol a ddarparwyd i aelodau i'w cynorthwyo gyda'u rôl graffu, megis adroddiadau a chyflwyniadau.

7 Yn yr adolygiad hwn, daethom i'r casgliad fod **y trefniadau craffu wedi datblygu'n dda a'u bod wedi'u hategu gan ddiwylliant sy'n eu rhoi mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau nawr ac yn y dyfodol. Ond, gallai'r Cyngor fod yn fwy arloesol o ran sut mae'n cynnal ei weithgareddau craffu**. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn sylweddoli bod ei swyddogaeth graffu yn bwysig ac mae'n ei gwerthfawrogi;
- Mae cyfarfodydd y pwyllgor craffu yn cael eu trefnu'n dda ac mae'r Cyngor yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn modd rhagweithiol yng ngwaith ei grwpiau gorchwyl a gorffen. Ond mae'n cydnabod y gallai wella o ran cynnwys y cyhoedd yn ei weithgareddau craffu;
- Gallai'r Cyngor edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio er mwyn gwella effaith gweithgareddau craffu a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r eithaf.

# Cynigion ar gyfer gwella

8 Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion ar gyfer y ffyrdd y gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ei swyddogaeth craffu er mwyn iddo fod mewn sefyllfa well i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol.

### Eitem 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor adeiladu ar ei brofiad o ddefnyddio ffyrdd gwahanol o weithio i ystyried dulliau mwy arloesol o gynnal gweithgareddau craffu. |
| C2 | Dylai'r Cyngor ystyried y sgiliau a'r hyfforddiant y gallai aelodau craffu fod eu hangen er mwyn eu paratoi'n well ar gyfer heriau yn awr ac yn y dyfodol a llunio a darparu rhaglen hyfforddiant briodol, gan gynnwys cynnig hyfforddiant ychwanegol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). |
| C3 | Dylai'r Cyngor ei gwneud yn haws i'r cyhoedd weld blaenraglenni gwaith pwyllgorau craffu ac ystyried sut y gallai gynnwys y cyhoedd yn ei weithgareddau craffu mewn modd mwy effeithiol. |
| C4 | Dylai'r Cyngor gyhoeddi fersiynau terfynol o gofnodion cyfarfodydd y pwyllgor craffu ar ei wefan mewn modd mwy amserol. |
| C5 | Dylai'r Cyngor ailedrych ar y math o gefnogaeth sydd ei hangen o ran craffu er mwyn i'r swyddogaeth graffu allu ymateb i heriau yn awr ac yn y dyfodol. |

## Mae'r Cyngor yn sylweddoli bod ei swyddogaeth graffu yn bwysig ac mae'n ei gwerthfawrogi

9 Fel rhan o'n hadolygiad, fe wnaethon ni edrych ar yr amgylchedd y mae craffu yn digwydd ynddo, gan gynnwys o ran eglurder rolau, y ddarpariaeth o hyfforddiant, cefnogaeth i aelodau'r pwyllgor craffu a'r berthynas rhwng y corff craffu a'r tîm gweithredol.

10 Mae'n bwysig sicrhau rolau clir os yw craffu i fod yn effeithiol. Gwelsom fod rolau aelodau craffu a rolau'r Cabinet wedi'u nodi'n glir iawn, a bod aelodau a swyddogion y Cyngor yn gwerthfawrogi rôl y swyddogaeth graffu. Er enghraifft, mae aelodau'r Cabinet yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor craffu yn rheolaidd er mwyn cyflwyno eitemau ac ateb cwestiynau, sy'n golygu ei bod yn hawdd i aelodau'r pwyllgor craffu eu dal yn atebol. At ei gilydd, mae'r berthynas rhwng y Cabinet a'r swyddogaeth graffu yn adeiladol. Mae'r Cabinet yn gwerthfawrogi rôl craffu, ond nid oedd pob aelod o'r Cabinet yn teimlo bod aelodau'r pwyllgor craffu yn herio digon.

11 Mae swyddogion uwch, gan gynnwys y Prif Weithredwr, hefyd yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor craffu yn aml, er enghraifft, y Pwyllgor Adolygu Polisi a Chraffu ar Berfformiad. Oherwydd hyn, mae gan swyddogaeth graffu'r Cyngor broffil uchel yn y sefydliad ac mae diwylliant cadarnhaol o fewn y Cyngor o safbwynt craffu, sy'n golygu ei fod mewn sefyllfa dda i ateb heriau yn y dyfodol.

12 O ran yr hyfforddiant sydd ar gael i aelodau pwyllgorau craffu, gwelsom fod yr aelodau yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch yr hyfforddiant craffu roeddynt wedi'i gael yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol yn 2017. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys pynciau megis 'Defnyddio technegau holi effeithiol' a 'Canlyniadau craffu effeithiol'. Fodd bynnag, efallai yr hoffai'r Cyngor bwyso a mesur yr amrywiol sgiliau a'r wybodaeth y bydd angen i'w aelodau craffu eu cael i ymateb yn fwy effeithiol i heriau nawr ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn bwysig wrth i'r Cyngor fwrw ymlaen â'i raglen trawsnewid Cyflawni Uchelgais Prifddinas[1]. Mater i'r Cyngor yw penderfynu beth fydd cynnwys rhaglenni hyfforddiant. Fodd bynnag, mae cyfle i'r Cyngor ystyried a fyddai hyfforddiant mewn meysydd megis craffu ar drefniadau masnachol, cydweithredol a rhanbarthol, masnacheiddio, dadansoddi ariannol, arfarnu opsiynau, a chynnwys rhanddeiliaid ac aelodau wardiau yn y gwaith o graffu yn galluogi cynghorwyr i fod mewn sefyllfa well i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol.

13 Hefyd, roedd rhai aelodau craffu yn teimlo bod angen mwy o hyfforddiant arnynt ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 cyn y byddent mewn sefyllfa i helpu i wreiddio ystyriaethau'r ddeddf honno ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod fod angen gwella'r agwedd hon ar graffu a bod angen rhoi mwy o hyfforddiant i aelodau ar y Ddeddf dan sylw.

[1] Cyflawni Uchelgais Prifddinas: Adroddiad y Cabinet Rhagfyr 2017

14 Fel rhan o’n hadolygiad, fe wnaethon ni hefyd ystyried y gefnogaeth oedd ar gael i aelodau craffu. Mae gan aelodau'r pwyllgor craffu barch mawr tuag at swyddogion Craffu'r Cyngor. Yn y papur briffio ar yr Adolygiad o Graffu roedd y Cyngor wedi’i ddarparu i’r Pwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad ar 6 Rhagfyr 2016, nodwyd fod cyllideb refeniw'r gwasanaeth craffu wedi gostwng 41% rhwng 2008-09 a 2016-17. O ganlyniad, yng nghyllideb 2017-18, cynigiwyd gwneud arbedion o 1.23% yn y gyllideb craffu, ac yng nghyllideb 2018-19, cynigiwyd gostyngiad o 11.13% yn y gyllideb ar gyfer y swyddogaeth graffu. Er bod gan y Cyngor swyddog sydd wedi bod yn gweithredu fel pennaeth statudol y gwasanaethau democrataidd, mae'r Cyngor nawr wedi recriwtio Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i gryfhau goruchwyliaeth rheolwyr uwch o'r swyddogaeth graffu. Wrth i'r pwysau ar adnoddau gynyddu, dylai'r Cyngor ystyried pa fath o gefnogaeth sydd ei hangen yng nghyswllt ei weithgareddau craffu i sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o'r gefnogaeth hon.

## Mae cyfarfodydd y pwyllgor craffu yn cael eu cynnal yn dda ac mae'r Cyngor yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol mewn modd rhagweithiol yng ngwaith ei grwpiau gorchwyl a gorffen. Ond mae’n cydnabod y gallai wella o ran cynnwys y cyhoedd yn ei weithgareddau craffu.

15 Wrth arsylwi mewn sampl o gyfarfodydd y pwyllgor craffu, gwelsom eu bod, at ei gilydd, yn cael eu cynnal yn dda, gyda thrafodaethau adeiladol a bod aelodau’r pwyllgor yn gofyn cwestiynau perthnasol gyda ffocws penodol. Dyna hefyd oedd barn aelodau a swyddogion y buom yn siarad â nhw fel rhan o'r adolygiad. Yn y cyfarfodydd y buom yn arsylwi ynddynt, roedd aelodau craffu yn herio swyddogion uwch ac aelodau'r Cabinet mewn modd adeiladol, gan eu dal i gyfrif yn effeithiol.

16 Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol Craffu Da? Cwestiwn Da! (gweler Troednodyn 1), sef ei adroddiad ar yr Astudiaeth Gwella Craffu, ym mis Mai 2014. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad fod cynghorau yn datblygu eu prosesau blaenraglennu gwaith craffu ymhellach er mwyn:

- darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;
- canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;
- sicrhau bod y dull craffu mwyaf addas yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y maes pwnc a’r canlyniad y gobeithir amdano; a
- chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella’r cyngor.

17 Mae blaenraglenni gwaith pob pwyllgor craffu ar gael ar wefan y Cyngor, ond dim ond (yn awr ac yn y man) fel rhan o bapurau agendâu pwyllgorau. Nid ydynt yn cael eu cyhoeddi fel eitemau annibynnol, felly nid yw’n rhwydd i aelod o'r cyhoedd ddod o hyd iddynt i ddeall pa bynciau y mae bob pwyllgor yn bwriadu eu hystyried a pha bryd. Nid yw'r rhaglenni gwaith ar gael yn yr adran rhaglenni gwaith craffu ar

wefan y Cyngor, er enghraifft. Hefyd, nid yw rhaglenni gwaith yn esbonio pwrpas eitemau craffu, gan gynnwys rôl benodol y pwyllgor craffu wrth ystyried yr eitem. Mae hyn yn amharu ar gyfle’r cyhoedd i ddeall gwaith craffu yn llawn a chyfrannu ato. Felly, nid yw'r Cyngor wedi mynd i’r afael yn llawn â’r argymhelliad uchod gan yr Archwilydd Cyffredinol.

18 Mae'r Cyngor wedi gwneud ymdrech deg i gynnwys rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn ei weithgareddau craffu. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi llwyddo i gynnwys tystion allanol o ran gwaith grwpiau gorchwyl a gorffen, er enghraifft yn ei ymchwiliad i gam-fanteisio’n rhywiol ar blant, ac wedi cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol yn ei adolygiad o'r economi nos. Yn 2017, roedd y Pwyllgor Craffu ar yr Economi a Diwylliant wedi gofyn am adborth drwy e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddwyr gwasanaethau canolfannau hamdden, ac mae enghreifftiau cynharach (yn deillio’n ôl i rhwng 2013 a 2015) o'r swyddogaeth craffu yn cynnwys pobl ifanc mewn cyfarfodydd pwyllgor a chynnal digwyddiadau gwrando â Phlant sy’n Derbyn Gofal. Serch hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy o ran cynnwys y cyhoedd a grwpiau eraill sydd â diddordeb yn ei weithgareddau craffu.

19 Mae pwyllgorau craffu'r Cyngor yn tueddu i ganolbwyntio ar nifer fach o eitemau ar gyfer yr agenda. Fodd bynnag, gwelsom fod lle o hyd i weithgareddau craffu fod yn fwy penodedig, ac i ystyried pa ddull o graffu sy'n gweddu orau i'r pwnc dan sylw a'r canlyniad a ddymunir. Er enghraifft, mewn rhai achosion yn 2016-17, gwelsom fod gan bwyllgorau craffu hyd at saith eitem sylweddol ar yr agenda, sy’n dangos y gellid blaenoriaethu gwaith pwyllgorau craffu yn fwy effeithiol.

20 Yn ein Hadroddiad ar y Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol ym mis Chwefror 2016[2] fe wnaethon ni gynnig ar gyfer gwella, sef y dylai'r Cyngor sicrhau bod cofnodion terfynol pwyllgorau yn cael eu cyhoeddi yn amserol. Nid yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael a'r cynnig hwn hyd yma gan ein bod wed canfod cofnodion pwyllgorau craffu oedd yn dyddio’n ôl mor bell â mis Medi 2017 a oedd yn parhau i fod yn fersiynau 'drafft’.

21 Fel rhan o’n hadolygiad fe wnaethon ni ystyried sut mae cynghorau’n dechrau craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran addasu i graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Buom yn arsylwi mewn cyfarfod o bwyllgor craffu pan oedd partneriaid Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu herio’n drwyadl.

[2] Cyngor Caerdydd - Gwaith Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol Chwefror 2016

## Gallai'r Cyngor edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio er mwyn gwella effaith gweithgareddau craffu a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r eithaf.

22 Yn ein hadroddiad ar yr astudiaeth gwella craffu ym mis Mai 2014 (gweler Troednodyn 1), Craffu Da? Cwestiwn Da!, fe wnaethon ni argymell bod cynghorau yn sicrhau bod effaith craffu yn cael ei gwerthuso'n iawn ac y gweithredir ar yr effaith honno er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth, gan gynnwys mynd ar drywydd camau gweithredu ac archwilio canlyniadau.

23 Roedd y Cyngor wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'i drefniadau craffu yn ystod 2016-17, gan gymharu trefniadau craffu'r Cyngor â threfniadau cynghorau Dinasoedd Craidd eraill a chynghorau eraill yng Nghymru. Roedd hefyd wedi rhoi sylw i'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella craffu a symud tuag at ddulliau gweithio mwy rhanbarthol a chydweithredol. Yn ei adolygiad, roedd y Cyngor wedi argymell gostwng nifer y pwyllgorau craffu o bump i bedwar. Ond, roedd y Cyngor wedi dewis parhau â phum pwyllgor craffu am flwyddyn tra bydd yn ystyried y cynigion. Fel rhan o'r ystyriaeth hon, byddai'n ddefnyddiol hefyd i'r Cyngor ystyried ffyrdd gwahanol o gynnal ei weithgareddau craffu er mwyn ymateb yn fwy effeithiol i heriau nawr ac yn y dyfodol ac er mwyn defnyddio ei adnoddau yn y modd gorau posibl.

24 Mae pwyllgorau craffu'r Cyngor yn sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen, sy'n tueddu i ganolbwyntio ar bynciau unigol. Ond, fel y mae yng nghyswllt llawer o swyddogaethau craffu ledled Cymru, mae craffu yn y Cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar ystyried adroddiadau gan swyddogion mewn cyfarfodydd llawn o'r pwyllgorau.

25 Mae gan y Cyngor bum pwyllgor craffu, ac mae bob un yn cyfarfod 11 gwaith y flwyddyn fel arfer, felly, cynhelir 55 cyfarfod ffurfiol o bwyllgorau craffu bob blwyddyn. Nid yw hyn yn cynnwys cyfarfodydd grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae angen adnoddau i gynnal y cyfarfodydd craffu eu hunain ond hefyd mae'n rhaid i swyddogion ac aelodau gael adnoddau i baratoi ar gyfer y cyfarfodydd hyn. Yn adolygiad y Cyngor o'i Raglen Datblygu Sefydliadol ym mis Rhagfyr 2016, nodwyd y byddai'n well gan y mwyafrif o aelodau dreulio llai o amser mewn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol.

26 Yn ystod ein hadolygiad, fe wnaethon ni ofyn i aelodau a swyddogion ddarparu enghreifftiau o sefyllfaoedd pan oedd craffu wedi cael effaith gadarnhaol. At ei gilydd, roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn deillio o grwpiau gorchwyl a gorffen yn hytrach nag o ganlyniad i gyfarfodydd ffurfiol o bwyllgorau craffu. Ymysg yr enghreifftiau a nodwyd roedd craffu ar dai gwag yn y cyngor, adolygiad o'r economi nos, ac ymchwiliad i gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Darparodd aelodau a swyddogion dystiolaeth gyfyngedig o effaith cyfarfodydd ffurfiol pwyllgorau craffu.

27 Mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol. Mae gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y ddinas, sef Uchelgais Prifddinas[3], yn nodi ei bod yn debygol y bydd angen i'r Cyngor wneud arbedion ychwanegol gwerth £81 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Mae rhaglen drawsnewid pedair blynedd y Cyngor, sef Cyflawni Uchelgais Prifddinas (gweler Troednodyn 2) yn ategu hyn. Gwelsom fod swyddogaeth graffu'r Cyngor yn cael ei chynnal yn dda a'i fod yn gallu dangos effaith ei grwpiau gorchwyl a gorffen, ond, yng ngoleuni'r her ariannol hon, mae lle o hyd i'r Cyngor roi ystyriaeth sylfaenol i'r ffordd y mae'n mynd ati o ran cyflawni'r rôl craffu. Wrth wneud hyn, dylai fanteisio ar y cyfle i archwilio ffyrdd gwahanol o weithio er mwyn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd fwyaf effeithiol a chanolbwyntio ar y meysydd hynny y mae'r swyddogaeth craffu yn gallu ychwanegu'r gwerth gorau atynt.

[3] Uchelgais Prifddinas: ein hymrwymiadau i Gaerdydd

# Atodiad 1

## Canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu effeithiol ar ran llywodraeth leol

Eitem 2: canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu effeithiol ar ran llywodraeth leol

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn ceisio'i gyflawni?** | **Sut beth fyddai hyn? Sut byddem ni'n ei adnabod?** |
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.**<br>**'Gwasanaethau Gwell'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae swyddogaeth werthfawr sydd wedi'i diffinio'n glir i graffu yn nhrefniadau gwella'r cyngor<br>ii) Mae'r swyddogaeth graffu yn cael cefnogaeth swyddogion pwrpasol sy'n gallu ymgymryd â gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol a rhoi hyfforddiant, cyngor a gwasanaeth dadansoddi o ansawdd uchel i aelodau'r pwyllgor Craffu.<br><br>**Ymarfer**<br>iii) Mae ymchwiliadau Trosolwg a Chraffu yn anwleidyddol gyda methodoleg gadarn sy'n ymgorffori amrywiaeth eang o safbwyntiau a thystiolaeth.<br><br>**Effaith**<br>iv) Mae'r swyddogaeth drosolwg a chraffu yn herio darparwyr gwasanaethau a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br>v) Mae'r swyddogaeth graffu yn darparu atebion ymarferol sydd wedi'u hategu â thystiolaeth gadarn i broblemau cydnabyddedig. |

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn ceisio'i gyflawni?** | **Sut beth fyddai hyn? Sut byddem ni'n ei adnabod?** |
| **2. Mae'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.**<br>**'Penderfyniadau gwell'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae cynghorwyr craffu yn cael yr hyfforddiant a'r cyfleoedd datblygu sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn effeithiol.<br>ii) Mae'r broses yn cael ei chefnogi'n effeithiol gan Dîm Rheolaeth Gorfforaethol y Cyngor sy'n sicrhau bod swyddogion craffu yn cael gwybodaeth o ansawdd uchel mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Ymarfer**<br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn cael ei harwain gan yr Aelodau ac yn arddel 'perchnogaeth' ar ei rhaglen waith, gan ystyried barn y cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr a sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi blaenoriaeth i bryderon y gymuned a materion o risg a phwysigrwydd strategol.<br>iv) Mae rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at ddatblygu a chyflawni blaenraglenni gwaith ym maes craffu.<br>v) Mae cyfarfodydd a gweithgareddau trosolwg a chraffu wedi'u cynllunio'n dda, maent yn cael eu cadeirio'n effeithiol ac yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau bosib.<br><br>**Effaith**<br>vi) Mae Aelodau Anweithredol yn darparu gwasanaeth cadw cydbwysedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r swyddogaeth gwneud penderfyniadau ar lefel Weithredol.<br>vii) Mae'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn rhoi cyfrif drostynt eu hunain yn gyhoeddus mewn pwyllgorau craffu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau portffolio. |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn trafodaethau democrataidd am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn awr ac yn y dyfodol.** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae'r Tîm Rheolaeth Gorfforaethol a Gweithredol yn cydnabod bod craffu yn ddull pwysig y gall y cyngor ei ddefnyddio i ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>**Ymarfer**<br>ii) Mae cyfathrebu effeithiol yn nodweddiadol o'r swyddogaeth graffu er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog pobl i ymwneud â hynny.<br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn gweithredu mewn ffordd anwleidyddol ac yn delio'n effeithiol â gwrthdaro, tensiwn a materion gwleidyddol sensitif.<br>iv) Mae'r swyddogaeth graffu yn meithrin ymddiriedaeth a pherthynas dda ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae'r swyddogaeth drosolwg a chraffu yn galluogi 'llais' cymunedau a phobl leol ledled yr ardal i gael ei glywed fel rhan o brosesau gwneud polisïau a phenderfyniadau. |

# Atodiad 2

## Argymhellion o adroddiad astudiaeth wella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ‘Craffu Da? Cwestiwn Da!’ (Mai 2014)

Eitem 3: argymhellion **Craffu Da? Cwestiwn Da!** Astudiaeth Gwella Craffu

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|
| A1 Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A2 Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i wneud gwaith craffu effeithiol. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau<br>• sicrhau bod y dull craffu mwyaf addas yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y maes pwnc a’r canlyniad y gobeithir amdano; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella’r cyngor. | Cynghorau |
| A4 Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | Cynghorau, staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
| --- | --- |
| A5 Sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbynnau gweithgareddau craffu, lle y bo'n briodol, wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A6 Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A7 Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. | Cyngor |
| A8 Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Cynghorau |
| A9 Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Cynghorau |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.archwilio.cymru

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru